

Mentrau**laith****Cymru****Cynhadledd Cenedlaethol Mentrau Iaith Cymru**

Dyddiad Cyfarfod	5 Chwefror 2019	
Lleoliad	Canolfan Y Priordy, Y Fenni	
Mynychwyr	Gweler rhestr mynychwyr ynghlwm.	
Ymddiheuriadau	I'w gadarnhau.	
1.	Croeso i'r Fenni - Carys Glyn, Ysgol Gymraeg Y Fenni	Croesawyd pawb i'r Gynhadledd gan Carys Glyn o Ysgol Gymraeg Y Fenni a rhoddwyd gefndir o hanes y dref a digwyddiadau sydd wedi eu cynnal dros y blynyddoedd. Nodwyd bod yr Iaith Gymraeg wedi gweld twf yn yr ardal yn ystod y bymtheg mlynedd diwethaf a bod nifer y siaradwyr Cymraeg hefyd wedi cynyddu.
2.	Mentro Mwy; Symud Ymlaen; Cynlluniau Papurau Bro/Gwyliau - Lowri Jones, Cadeirydd MIC	<p>Bu i Gadeirydd MIC, Lowri Jones, ddiolch i Carys Glyn am y croeso a'i holl gefnogaeth i'r Mentrau Iaith ar draws Cymru. Nodwyd bod y Gynhadledd yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i MIC a rhoddwyd croeso arbennig i Swyddogion Llywodraeth Cymru a cyfleuwyd diolchiadau a gwerthfawrogiad iddynt am y cyfleoedd cydweithio yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd i tîm MIC am yr holl drefniadau ar gyfer y Gynhadledd, yn arbennig i HapG sydd wedi arwain ar y trefniadau.</p> <p>Mentro Mwy - lanswyd y cynllun yn 2016 fel fframwaith i waith y Mentrau. Erbyn hyn, nodwyd bod MIC wedi cyflawni marc ansawdd PQASSO Lefel 1 a estynwyd llongyfarchiadau iddynt ar y llwyddiant. Nodwyd bod y Mentrau unigol yn ogystal yn gwneud ceisiadau i gyflawni'r marc ansawdd. Nodwyd bod y cynllun Mentro Mwy wedi arwain at nifer o brosiectau cenedlaethol llwyddiannus dros y blynyddoedd. Gwelwyd cynnydd yn y grantiau sydd wedi arwain at ddatblygiad staff a gweithlu. Adroddwyd bod cyfnod Mentro Mwy yn dod i ben diwedd Mawrth 2019 a bydd cyfle i edrych ymlaen at y Cynllun Corfforaethol newydd fydd yn cael ei fabwysiadu o ddiwedd mis Mawrth a'i lansio yn ffurfiol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.</p> <p>Symud Ymlaen - bu i Arweinydd Tîm MIC, Iwan Hywel, adrodd fod MIC yn bodoli er mwyn gwasanaethu'r Mentrau a'i bod yn hanfodol i'r Mentrau fod yn glir o ran y blaenoriaethau. Cynhaliwyd sesiwn grŵp ar flaenoriaethau MIC a'r hyn mae'r Mentrau yn</p>

		<p>awyddus i MIC ei wneud ar eu rhan. Bydd yr holl sylwadau a'r adborth o'r sesiwn grwp yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi. Nodwyd y bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn ystod ail-ddiwrnod y Gynhadledd.</p>
3.	<p>Prosiect Tafodiaith - Rhidian Evans, Menter Iaith Sir Benfro</p>	<p>Bu i Amanda Evans, Prif Swyddog Menter Iaith Bro Ogwr, croesawu Rhidian Evans o Fenter Iaith Sir Benfro, sydd yn arwain ar y Prosiect Tafodiaith. Eglurwyd bod y prosiect wedi dod i ben yn swyddogol ond yn parhau i weithredu yn naturiol. Nodwyd bod pecyn gwybodaeth a DVD ar y prosiect wedi ei ddosbarthu ar y byrddau yn y gynhadledd.</p> <p>Rhoddwyd eglurhad o beth ydi tafodiaith, sydd yn amrywio ac yn cael effaith o ardal i ardal. Eglurwyd bod y prosiect wedi ei gyllido drwy Grant Cronfa Treftadaeth y Loteri am gyfnod o ddwy flynedd.</p> <p>Nodwyd yr isod fel y prif resymau dros greu'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Tafodiaith yr ardal (Sir Benfro) yn cael ei golli. - Pwysig parhau hanes yr ardal drwy'r iaith. - Elfen ohono yn dylanwadu geiriau Saesneg wedi ei Cymreigio. - Ymgynghoriad lleol wedi dangos diddordeb mawr. <p>Penodwyd Hedydd Hughes fel Swyddog y Prosiect.</p> <p>Bu i Rhidian Evans ddarparu hanes o dafodiaith Sir Benfro a cefndir sefydlu'r prosiect. Cyn cychwyn y prosiect cynhaliwyd gwaith ymchwil ymysg y cymunedau a cynhaliwyd sgrysiâu a cyfweiliadau gyda unigolion. Nodwyd bod pethau bychan wedi cyfranu at gyfoethogi'r prosiect. O ran marchnata'r cynllun, nodwyd bod llyfryn a dvd wedi eu creu i esbonio'r broses a chyfleu ychydig o hanes. Nodwyd bod sylw wedi bod yn y Wasg a'r cyfryngau cymdeithasol a bod graffiti wedi ei roi ar furiau rhai o Ysgolion er mwyn tynnu ar eiriau penodol mewn ardal penodol. Ychwanegwyd bod gwaith crefft ar y prosiect hefyd wedi ei greu.</p> <p>Pwysleiswyd ei bod yn hanfodol ar gyfer y dyfodol bod dysgwyr Cymraeg yn clywed a dod yn gyfarwydd gyda tafodiaith ar lafar, yn ychwanegol i ddysgu'r iaith ffurfiol. O ganlyniad i lwyddiant y prosiect nodwyd bod prosiect dilynol wedi ei greu - Mini, Myny, Mwni (geiriau gwahanol am 'fynydd' ar draws y Sir) ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Parc Cenedlaethol. Nodwyd bod sesiynau cydweithio wedi eu cynnal gyda swyddogion yr Ymddiriedolaeth a'r Parc a mai'r bwriad yw i ledaenu'r prosiect ymhellach ar gyfer ysgolion. Annogwyd pawb i wneud mwy o ddefnydd o dafodiaith ardaloedd a'i rhannu efo pobl.</p>
4.	<p>Cael y Gorau o'r Cyfryngau Cymdeithasol - Alun Jones, S4C</p>	<p>Bu i Nia Thomas, Prif Swyddog Menter Iaith Môn, groesawu Alun Jones, Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C.</p> <p>Rhoddodd Alun Jones arweiniad i'r gynulleidfa ar effeithiau'r cyfryngau cymdeithasol.</p> <p><i>Facebook</i> - nodwyd bod 80% o bobl yn gwyllo fideos heb sain ar y cyfrwng ac ei bod ond yn cymryd 2-3 eiliad i ddenu pobl at gynnwys fideo. Eglurwyd nad yw testun yn unig am gyrraedd llawer o bobl a bod angen fideo gweledol er mwyn cyflawni mwy o ymweliadau. Eglurwyd bod 'grwp' ar <i>Facebook</i> angen ei reoli ond bod 'tudalen' yn well ar gyfer busnes. Nodwyd bod modd</p>

		<p>rhannu gormod, sydd yn cael ei gyfeirio ato fel 'spamio'. Rhestrwyd yr isod fel cynnwys i ddeunydd <i>Facebook</i> - fideos byr, fformat sgwar, isdeitlau/testun i'r fideos, deunydd effeithiol a perthnasol, teitl cywir.</p> <p><i>Twitter</i> - gall gael ei ddefnyddio ar gyfer rhannu cyn gymaint o wybodaeth/fanylion/cyhoeddiadau a dymunir. Nodwyd bod www.tweetdeck.twittwr.com yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol ar sut i wneud y defnydd gorau o'r cyfrwng, e.e. cyfres o golofnau, monitro #, amseru deunydd i fynd allan.</p> <p>Gall ystadegau gael eu defnyddio er mwyn canfod yr hyn sydd yn gweithio a'r hyn sydd ddim.</p> <p>Nodwyd ei bod yn ddefnyddiol teilwra cynnwys ac addasu'r fideos ar gyfer gwahanol gyfryngau, e.e. dylai fformat gwahanol gael ei ddefnyddio ar gyfer <i>Instagram</i> i'w gymharu a <i>Facebook</i>.</p> <p>Eglurwyd nad oes hawl cyfreithiol i ddefnyddio cerddoriaeth masnachol ar <i>Facebook</i>.</p> <p>Gall gweithio mewn partneriaeth ar gyfryngau cymdeithasol arwain at amryw o bosibiliadau.</p> <p>Awgrymwyd y canlynol fel deunydd defnyddiol ychwanegol: Grwp <i>Facebook</i> '<i>The Social Media Geek Out</i>'; Blog '<i>Social Fry Up</i>' https://socialfryup.wordpress.com.</p>
5.	Llywodraeth Cymru - Bethan Webb, Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru	<p>Croesawyd Bethan Webb, Pennaeth Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru a bu iddi gyflwyno ymddiheuriadau ar ran Eluned Morgan, AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. Dangoswyd fideo gan Eluned Morgan, oedd wedi ei recordio o flaen llaw, oedd yn cyfleu neges galonogol a phositif. <i>Linc i'r fideo??</i></p> <p>Bu i Bethan Webb ddiolch i bawb sydd ynghlwm a'r holl waith caled sydd yn cael ei gyflawni gan y Mentrau. Bu iddi gyfeirio at y Mentrau fel eiliolwyr yng nghymunedau Cymru. Er ei bod yn anodd cael Polisi Iaith Cymunedol led led Cymru, diolchwyd i'r holl Fentrau am eu gwaith a'u ymdrechion. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cael ei barnu am beidio hybu a hyrwyddo digon ar yr iaith Gymraeg ond cwestiynwyd os yw negeseuon y Llywodraeth yn cyrraedd y cymunedau neu os oes angen i'r Llywodraeth wneud rhywbeth arall, a beth fyddai hynny. Cyfeiriwyd at y Datganiad sydd wedi ei wneud sydd yn cadarnhau na fydd Llywodraeth Cymru yn bwrw mlaen efo Bil y Gymraeg a bod oblygiadau i'r Mentrau o ran pwy fydd yn eu ariannu. Amlinellwyd y rôlau canlynol i'r sefydliadau canlynol yng nghyd-destun y maes hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg:</p> <p>Llywodraeth Cymru - rôl arweiniol MIC a partneriaid - rôl hyrwyddo Comisiynydd Iaith - rôl rheoleiddio Canolfan Dysgu - hybu a hyrwyddo dysgwyr</p>

Nodwyd bod cwestiynnau yn codi yn dilyn y Datgriad os yw trefniadau cywir mewn lle i gyd-fynd efo'r strwythur a beth yw rôl y Comisiynydd yn ei newydd wedd. Nodwyd bod bwlch enfawr yn y farchnad o ran cynllunio ieithyddol a datblygu cymunedol a bod cyfle am drafodaeth pellach ar y mater. Eglurwyd bod y Comisiynydd yn gyfrifol am greu Strategaethau Iaith a bod angen cefnogi mwy ar rai Awdurdodau Lleol o ran y Strategaeth Iaith.

Bu i Bethan Webb longyfarch MIC ar gyflawni marc ansawdd PQASSO, sydd yn rhoi fframwaith gadarnhaol i greu sicrwydd a galluogi Llywodraeth Cymru i roi sicrwydd i'r Gweinidog. Bu iddi gyfeirio yn benodol at y gobaith y bydd pob Menter Iaith wedi cyflawni PQASSO erbyn Mawrth 2020 ac amlygwyd y pwysigrwydd ynghlwm a'r cyflawniad hwn.

Cyfeiriwyd ar y Fforymau Sirol. Eglurwyd bod Fforymau Sirol Addysg, sydd o dan gyfrifoldeb Bethan Webb ynghlwm a'r Strategaethau Addysg, yn cael eu creu a bod y trafodaethau yn cryfhau. Fodd bynnag, cwestiynwyd os oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Fforymau a dylid manteisio ar eu bodolaeth. Eglurwyd bod Ynys Môn wedi cyfuno Fforwm Sirol Iaith gyda Fforwm Sirol Addysg a gall hyn fod y ffordd ymlaen ar gyfer gweddill ardaeloedd Cymru yn ogystal a cryfhau'r cysylltiadau cydweithio gyda partneriaid eraill megis yr Urdd, Mudiad Meithrin, Ffermwyr Ifanc ayyb. Pwysleisiwyd ar y pwysigrwydd o fod yn glir ar flaenoriaethau yr holl bartneriaid.

Adroddwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ym mis Mai ar y CySGA newydd. Eglurwyd y bydd mwy o lefydd Meithrin ar gael os ydi rhieni yn dymuno addysg Gymraeg i'w plant. Bydd CySGA yn asesu faint o blant sydd yn cael eu dysgu yn eu iaith gyntaf a gyda'r nód o gynyddu'r niferoedd i 30% o blant Cymru erbyn 2031. Nodwyd y bydd Cwricwlwm newydd yn dod a cyfloedd gwahanol, gan gynnwys cyflwyno asesiadau ar oeddrannau yn hytrach na Cyfnodau Allweddol a cyflwyno llai o rym o ran profion dosbarth er mwyn tystiolaethu gallu a dilyniant plentyn. Nodwyd bod y disgyniad yng Nghyfnod Allweddol 4 o'r nifer o blant sydd yn cael eu asesu yn y iaith gyntaf wedi disgyn i 18% yn her i Llywodraeth Cymru ond bod cwestiwn yn codi hefyd o ran cyfraniad y Fforymau Sirol a'r Mentrau Iaith yng nghyd-destun y CySGA newydd. Gwnaed sylw y gall Llywodraeth Cymru barhau i gadw grant y Mentrau Iaith yn hyfyw ond bod posibilrwydd i'r Mentrau golli allan tu hwnt i'r grant a gall bod budd i gydweithio mwy gyda'r Awdurdodau Lleol er mwyn denu cyfraniadau pellach.

O ran cydiweithio drwy MIC, bu i Bethan Webb awgrymu i Gais Busnes cynnar gael ei roi gerbron Llywodraeth Cymru mewn perthynas a'r uchod gan bwysleisio ar obaith y Llywodraeth i MiC barhau i gydweithio a datblygu gyda mentrau megis yr Urdd a'r Mudiad Meithrin.

Adroddwyd bod y Cynllun Cymraeg 2050 wedi rhoi hyder am drafodaethau pellach a rhoi'r dychymyg am drafodaethau newydd. Er bod gwaith caled yn parhau i fod angen ei wneud, nodwyd ei bod yn bwysig hyrwyddo'r negeseuon positif yn ogystal a hyrwyddo'r cyfleoedd o fewn y gweithle. Eglurwyd mai'r 3 maes o fewn y Cynllun yw Caffael Iaith; Creu mwy o siaradwyr a; Creu amodau cywir drwy agor y drws i'r diwylliant tu hwnt i gyfathrebu.

Rhodddwyd cyfle i'r gynulleidfa gyflwyno cwestiynnau i Bethan Webb:

- Byddai'n dda cael strwythur penodol mewn lle ar gyfer gwirfoddolwyr, oes cynlluniau ar y gweill?
*Mae Diwrnod Cenedlaethol Gwirfoddolwyr yn ogystal a Wythnos Gwirfoddolwyr ym mis Mehefin - byddai'n dda lansio rhywbeth ar y cyd i hyrwyddo gwirfoddolwyr a gwerthfawrogiad eu cyfraniad. **Tím MIC i wirio'r dyddiadau a cychwyn trafodaeth am botensial lansiad.***
- Oes ffordd i gynorthwyo datblygu ymhellach gyda CVC's lleol? Lle gall trafodaethau pellach gael eu cynnal i ddatblygu prosiect gwirfoddoli ymhellach na dim ond dathlu?
*Yn bendant mae lle i Llywodraeth Cymru gynorthwyo a chefnogi. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda'r WCVA a mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r CVC's i gychwyn trafodaeth gyda'r gobaiith o ddatblygu trafodaethau ymhellach. Bu i Iwan Hywel ychwanegu bod y mater wedi ei drafod a bod brwdfrydedd mewn lle i greu rhaglen i wirfoddolwyr ond bod cwestiwn yn codi o ran cyllid. Amlygwyd y cyfle i dargedu'r Diwrnod Cenedlaethol Gwirfoddolwyr a datblygu rhaglen yn ogystal a manteisio ar y cyfle i gydweithio gyda WVCA a'r CVC's. Pwysleisiwyd bod angen dathlu'r ffaith bod gymaint o wirfoddolwyr, a rheiny o bosibl yn bobl sydd ddim yn sylweddoli eu bod yn gwirfoddoli. Gwnaed sylw bod yr awyrgylch yng Nghymru wedi newid a bod sefyllfa gwell yn bodoli o ran y Gymraeg ond bod gwaith pellach angen ei wneud er mwyn cyrraedd sefyllfa fwy diogel.
Mae gan Cymru cyn gymaint i'w gynnig yn rhyngwladol a dylid manteisio ar y cyfleoedd a cryfderau arwyddocaol sy'n bodoli. Er ein bod yn cydnabod bod heriau yn bodoli, dylid manteisio ar y cyfleoedd syweddol a hyrwyddo'r elfennau positif.*
- Pa waith sydd yn cael ei wneud yn rhyngwladol?
Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar wneud mwy efo cysylltiadau rhyngwladol. Mae Global.Welsh yn rhywbeth diddorol a defnyddiol i edrych arno. Mae Llywodraeth Cymru yn hapus i gynorthwyo a chefnogi gyda rhannu negeseuon Cymraeg yn rhyngwladol.
- Mae Bil newydd allan ar hyn o bryd. Mae'r cylch ariannu tair blynedd wedi gweithio yn dda yn y gorffennol, ydi hwn yn parhau i fod ar y gwedill ar ol yr ariannu blynyddol, fyddai'n golygu mwy o sicrwydd i'r Mentrau?
Y nod tu ol i'r ariannu blynyddol oedd ceisio creu cyfundrefn fel ei bod yn haws gweld yn glir sut mae'r Mentrau yn cynllunio tuag at Cymraeg 2050. Mae prosesau caffael Llywodraeth Cymru wedi mynd yn mwy llym. Mae Cais Busnes am dair blynedd wedi ei rhoi mewn lle, ond heb mwy o arian, roedd yn anodd mynd allan a'i gynnig i bawb. O ganlyniad, mae adrannau Llywodraeth Cymru wedi cael gorfodaeth i wneud y broses ariannu yn fwy agored, sydd y rheswm dros wneud y grant i rholio drosodd.
- Wrth i Llywodraeth Cymru gynllunio i'r dyfodol, rydym ni fel y Mentrau laith yn gofyn i chi gadw mewn c6f i gynnig cynllun ariannu tair blynedd.
Mae hyn yn gais teg ond mae cyfyngiadau ynghlwm ar faint o arian y gellir rholio drosodd.

		<p>Diolchwyd i Bethan Webb am ei phresenoldeb yn y Gynhadledd ac am ei amser i gyfathrebu gyda'r gynulleidfa. Cadarnhawydwyd y bydd y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a MIC yn parhau.</p>
6.	<p>Undeb Rygbi Cymru a'r Iaith Gymraeg - Aled Parry, Undeb Rygbi Cymru</p>	<p>Bu i Dewi Snelson, Prif Swyddog Menter Gorllewin Sir Gar, groesawu Aled Parry o Undeb Rygbi Cymru.</p> <p>Adroddodd Aled Parry bod Cwpan y Byd ymlaen eleni a bod tîm cenedlaethol Cymru yn rhan ohono. Fodd bynnag, bu iddo adrodd fod Undeb Rygbi Cymru yn ceisio newid sylw pawb fel bod yr Undeb yn cael ei weld fel Undeb ehangach na'r tîm cenedlaethol, e.e. tîm merched, ieuenctid, cymunedau, bobl efo anghenion.</p> <p>Hysbyswyd y gynulleidfa bod gan Undeb Rygbi Cymru gynllun newydd yn cael ei ddatblygu, Rhaglen Ysgolion Cynradd, sydd á'r nód o greu deunydd rygbi digidol i blant ac athrawon. Nodwyd bod bwriad i fynd i mewn i'r dosbarthiadau i wneud gwaith a gweithgareddau efo'r disgyblion. Nodwyd ma'i hwn fydd cynllun cyntaf yr Undeb ble mae popeth wedi ei greu a'i ddatblygu drwy'r Gymraeg, fydd wedyn yn cael ei gyfieithu i Saesneg. Nodwyd bod adborth positif wedi ei dderbyn gan athrawon. Fel rhan o'r cynllun bydd sesiynnau amrywiol yn cael eu cynnal o fewn y dosbarthiadau yn yr ysgolion. Bydd y cynllun yn cael ei lansio ar y 1af o Fawrth yng Nghynhadledd Prif Athrawon Cymru ac yn cychwyn gweithredu ym mis Medi. Nodwyd bod y cynllun ar gael i pob ysgol Gymraeg a Saesneg drwy Gymru gyfan. Gwnaed cais i'r Mentrau am gymorth o ran sut i gysylltu a cyfathrebu efo clybiau ac annog mwy ohonynt i gynnal sesiynnau rygbi drwy'r gGymraeg.</p> <p>Rhoddwyd eglurhad o'r Cyrsiau Cymunedol sydd yn cael eu darparu gan Undeb Rygbi Cymru a nodwyd bod rhai o arweinwyr y cyrsiau yn medru dod i mewn i gymunedau a chlybiau i gynnal cyrsiau a sesiynnau ond bod angen cymorth gan y Mentrau er mwyn medru creu a cynnal hyn.</p> <p>Rhoddodd Aled Parry fwy o fanylion ynglyn á'r Cyrsiau Cymunedol gan wahodd y Mentrau i gynnig sylwadau ar sut y gallent helpu Undeb Rygbi Cymru i ddenu pobl i fynychu'r cyrsiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhaglen Amdani Comisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r cyrsiau. - Cyrsiau yn cael eu hyrwyddo drwy glwbiau a bydd gwefan newydd dwyieithog yn cael ei lansio ym mis Mehefin. - Defnyddio'r tîm cenedlaethol i ryw raddau i hybu a hyrwyddo'r cyrsiau. - Bydd y cyrsiau yn cael eu cynnal drwy'r Gymraeg yn unig - bydd y rhai Saesneg yn cael eu cynnal ar wahan. - Bydd nifer y cyrsiau yn cynyddu os bydd digon o alw amdanynt. - Edrych i hyfforddi mwy o bobl i redeg y cyrsiau - chwilio am siaradwyr Cymraeg o fewn y rhanbarthau sy'n fodlon arwain. - Bydd ystadegau ar gael er mwyn medru canfod faint o siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu gwahanol gyrsiau. - Bydd y cyrsiau yn rhedeg efo prentisiaethau'r Urdd. - Bydd y Rhaglen Ysgolion Cynradd yn cael ei beilota yn rhanbarthol gyda'r bwriad o'i wireddu ar draws Cymru os bydd y peilot yn llwyddianus. Gall Undeb Rygbi Cymru fod yn edrych am bartneriaid i gynnal y sesiynnau o fewn dosbarthiadau

		<p>ysgol, yn ogystal a eiriolwyr a llysgenhadon yn enwedig yn yr iaith Gymraeg. Annogwyd i unrhyw Fenter sydd a diddordeb i adael eu manylion cyswllt gyda Aled Parry er mwyn datblygu cyswllt pellach.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sleidiau a fideo ar hyfforddi drwy'r Gyrmaeg ar gael er mwyn ceisio rhoi mwy o hyder i bobl ar y cyrsiau i ddefnyddio'r iaith yn yr hyfforddiant a'r clybiau. <p>Codwyd cwestiwn gan Menter Iaith Môn os oes unrhyw gyrsiau teuluol yn cael eu cynnal dwy Undeb Rygbi Cymru gan nodi fod gan Môn gynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiadau teuluol. Cytunodd Aled Parry y byddai Undeb Rygbi Cymru yn barod i agor trafoaethau pellach.</p> <p>Cwestiynwyd os oes unrhyw wahaniaeth mewn cymwysterau rhwng y cwrs Gymraeg a'r cwrs Saesneg. Mewn ymateb bu i Aled Parry nodi bod hyn yn fater am ystyriaeth pellach a bod posibilrwydd medru cynnig mwy ynghlwm a'r cwrs Gymraeg fel bod yr unigolyn yn cael cymhwyster dysgu Gymraeg a Saesneg, yn hytrach na Saesneg yn unig ar gwrs Saesneg, fel ffordd o geisio annog mwy o bobl i fynychu cyrsiau Gymraeg.</p> <p>Diolchwyd i Aled Parry am y cyflwyniad ac am rannu gwybodaeth am y cyrsiau. Cytunwyd bod cyfrifoldeb ar y Mentrau fel rhwydwaith i drafod sut i gefnogi mwy ar Undeb Rygbi Cymru a datblygu mwy o gydweithio.</p>
7.	Cwis Dim Clem - Dewi Snelson, Menter Gorllewin Sir Gar	<p>Oherwydd cyfuniad amser, penderfynwyd na fyddai'r Cwis Dim Clem yn cael ei gynnal.</p> <p>Eglurwyd bod Cwis Dim Clem wedi ei ddatblygu ar gyfer ysgolion cynradd a wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn.</p> <p>Gwnaed cais i'r Mentrau ymrwmo i gynnal y cwis yn genedlaethol o'r flwyddyn academiaidd nesaf ymlaen. Bu i'r Mentrau canlynol ymrwmo: Casnewydd, Caerffili, Bro Ogwr, Brycheiniog a Maesyfed, Ceredigion, Sir Ddinbych, Conwy, Castell Nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Môn, Gwynedd/Hunaniaith.</p>
8.	Perthynas y Mentrau a'r Awdurdodau - Elin Maher, Cyfrwng	Trafodaeth heb ei gofnodi.